CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
19 Tachwedd 2019, Neuadd Talwrn
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng A C Jones, A Williams, C Jones, D Roberts, W Williams, D Rees (Cyngor sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng W Vaughan, A Wyn, D ap Rhobert, E Williams, D Pritchard, C McGregor	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng A Williams
2	**DATGAN DIDDORDEB** - C Jones eitem 6.2
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 15.10.19. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Archwilydd allanol** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
4.2	**Lay By Llangwyllog** - Dywedodd y Clerc y bydd yr Heddlu yn gweithredu
4.3	**Llwybr Tre Ddewi** - mewn llaw
4.4	**RAF y Fali** - Mae'r Clerc yn disgwyl am dyddiad y cyfarfod
4.5	**Eglwys Llanddyfnan** - Mae'r Clerc yn disgwyl am dyddiad y cyfarfod
4.6	**Coed** o gwmpas y lamp ar draws i Bodlondeb a'r golau wrth ymyl Glascoed - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.7	**Ffordd o groesffordd Talwrn i Bentraeth** yn dirywio - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Dim
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Woodland Trust - coed ar gael am ddim - gwybodaeth yn unig
6.2	Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru - Bydd unrhyw un sydd ag ymatebion yn eu hanfon at y bwrdd
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytuniwyd i dalu:
7.1	Costau y Clerc £181.65
7.2	G Hughes £375.00 - torri gwair
7.3	Cyngor Gwynedd £150.00 - archwilio
	Llofnod……Cadeirydd 21.01.20

7.4	Adroddiad BDO 2018/19. Darllenwyd addroddiad BDO: 1 Nid yw'r Cyngor wedi nodi dyddiad y cofnod yn cadarnhau'r datganiad cyfrifo a'r datganiad llywodraethiant blynyddol 2 Nid yw'r Cyngor yn cofnodi cymeradwyaeth y ffurflen flynyddol sy'n cynnwys y Datgtaniadau Cyfrifo ac ymatebion y Cyngor i'r Datganiadau Llywodraethiant Blynyddol. Nid yw y Cyngor yn cytuno a'r mater. Cofnodwyd cymeradwyaeth y ffurflen flynyddol yn y cyfarfod 15.01.19. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw BDO
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Amseroedd bws Capel Coch - Trafodwyd cwyn ynglŷn â bysiau yn mynd trwy Capel Coch ddim yn cyrraedd mewn pryd a rhai ddim yn troi i fyny o gwbl. Bydd y Clerc yn trafod y mater gyda'r Cyngor Sir
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Dim
	Llofnod……Cadeirydd 21.01.20